

Cyngor Cymuned Llanbadrig Community Council

**Cofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd am 7yh 18/5/2021 drwy gynhadledd fideo.
Minutes of the Full Council meeting held at 7pm 18/5/2021 by video conference.**

Yn Bresennol/Present: Derek Owen, Enid Jones, Carys Davies, Vic Ensor, Brian Potter, Elfed Jones, Dafydd Williams, Tim Turner (trafferthion technegol/technical issues), Dei Owens (hwyr/late)

Wrth Law/In attendance: Carli Evans Thau (Clerc/Clerk)

Ymddiheuriadau/Apologies: Cyng/Cllr Richard Griffiths, Cyng/Cllr Richard Jones, Tim Turner (trafferthion technegol/technical issues)

1 Croeso/Welcome

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Derek Owen a bu croesawu pawb oedd yn bresennol.
Derek Owen chaired the meeting and welcomed all present.

2 Datgan Diddordeb/Declaration of Interest

Derek Owen - cais cynllunio Gadlys planning application

3 Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd/Elect Chair and Vice Chair

Bu'r aelodau yn unfrydol yn ethol Derek Owen a Carys Davies i barhau yn Gadeirydd ac Is-gadeirydd am flwyddyn arall

Members were unanimous in re-electing Derek Owen and Carys Davies as Chair and Vice Chair for another year.

4 Cadarnhau Aelodaeth Pwyllgorau/Confirm Committee Membership

Cadarnhawyd aelodaeth pwyllgorau fel a ganlyn:
Membership of committees was confirmed as follows:

- 4.1 Pwyllgor Cyllid/Finance Committee: Derek Owen, Carys Davies, Elfed Jones, Enid Jones, Brian Potter, Vic Ensor
- 4.2 Pwyllgor Parciau a Mannau Agored/Parks and Open Spaces: Derek Owen, Carys Davies, Elfed Jones, Enid Jones, Dei Owens, Jack Longman
- 4.3 Harbwr/Harbour: Brian Potter, Jack Longman, (ac aelodau'r gymuned yn unol a'r rheoliadau/and members of the community as per terms of reference)

Nodwyd bod dwy sedd wag ar y pwyllgor yma, i'w gadarnhau pan fydd aelodau newydd i'r Cyngor wedi eu hethol.

It was noted that there were two vacant seats on this committee, to be confirmed when new council members were elected.

4.4 Pwyllgorau Allannol/External Committees

Clwb Pel Droed/Football Club – Dei Owens

Clwb Ffitrwydd/Fitness Club - Dei Owens

SSG Wylfa Magnox – Derek Owen, Enid Jones

Un Llais Cymru/One Voice Wales – Derek Owen, Brian Potter

Ysgol Gynradd – Carys Davies

Cronfa Padrig – Derek Owen, Elfed Jones

Partneriaeth Gogledd Mon / North Anglesey Partnership – Derek Owen, Carys Davies

Cyngrair Twrcelyn Alliance – Derek Owen, Carys Davies

5 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf/Minutes of the Last Meeting

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, cynnig Vic Ensor, eilio Enid Jones.
Minutes of the meeting were approved, proposed Vic Ensor, seconded Enid Jones.

6 Materion yn Codi o'r Cofnodion/Matters Arising from the Minutes

6.1 Sedd Wag/Vacant Seat

Cadarnhaodd y clerc ei bod wedi cysylltu a'r swyddfa etholaeth i ddechrau ar y broses o hysbysebu'r sedd wag. Bu nodi boydd angen hysbysebu ail sedd wedi i Tim Turner ddatgan ei bod yn bwriadu sefyll i lawr wedi'r cyfarfod yma gan ei fod yn symud o'r ardal.

The clerk confirmed that she had contacted the elections office to begin the process of advertising the vacancy. It was noted that a second seat would need to be advertised after Tim Turner stated that he intended to stand down after this meeting as he was moving out of the area.

7 Diweddariadau/Updates

7.1 Cyllid a Personel/Finance and Personnel

Bu'r clerc roi crynodeb o'r trafodaethau yng nghyfarfod y pwyllgor cyllid.
The clerk gave a summary of the discussions at the finance committee meeting.

7.2 Parciau a Mannau Agored/Parks and Open Spaces

Cadarnhawyd bydd y pwyllgor yn cwrdd am 6.30 10/6/2021 yn y ganolfan dreftadaeth ac yna i ymweld a gwahanol leoliadau yn y pentref.

It was confirmed that the committee will meet at the heritage centre for 6.30pm 10/6/2021 to then visit various sites in the village.

7.3 Pwyllgor yr Harbwr/Harbour Committee

Cadarnhawyd bod adroddiad wedi ei anfon allan cyn y cyfarfod, bu cymryd y cyfle i ddiolch i Tim Turner am ei waith di-flino ar ran y pwyllgor, y Cyngor a hefyd Partneriaeth Gogledd Mon. Nodwyd bydd angen penodi ysgrifennydd newydd ar gyfer y pwyllgor. Bu Tim Turner gytuno byddai yn parhau a'r gwaith ym mis Mehefin i roi cyfle i'r pwyllgor benodi rhywun i'r swydd.

It was confirmed that a report had been sent out prior to the meeting, members took the opportunity to thank Tim Turner for his tireless work on behalf of the committee, the Council and also the North Anglesey Partnership. It was noted that a new secretary would need to be appointed to the committee. Tim Turner agreed that he would continue the work in June to give the committee the opportunity to appoint someone to the post.

7.4 Pwyllgorau Allanol/External Meetings

Cafwyd ddiweddariad gan Carys Davies ar ran Llywodraethwyr yr Ysgol Gynradd.
Carys Davies gave an update on behalf of the School Governors.

8 Cynllunio/Planning

8.1 Ceisiadau/Applications

Cyflwynwyd tri cais cynllunio i'w hystyried. Cadarnhaodd y clerc bod manylion pob un wedi'u hafnon at yr holl aelodau cyn y cyfarfod.

Three planning applications were presented for consideration. The clerk confirmed that the details for each had been forwarded to all members prior to the meeting.

- 7 Stryd Fawr (FPL/2021/73) – Cefnogi/Support
- Gadlys (FPL/2021/74) – Cefnogi/Support

- 2-3 Old Lookout (HHP/2021/150) – dimgwrthwynebu ond tynnu sylw bod y datblygiad o fewn ardal gadwraeth/ no objection but point out that the development is within a conservation area.

8.2 Penderfyniadau CSYM/IACC Decisions

Rhoddyd gwybod i aelodau am benderfyniadau a ganlyn yr awdurdod cynllunio:

Members were informed of the planning authority's decisions as follows:

- Cae Owain (DAG/2021/8) dim angen caniatad/no permission required
- Gorphwysfa (FPL/2021/59) caniatad/approved

8.3 Gorfodaeth/Enforcement

Ni chafwyd y sefyllfa ddiweddaraf gan y Cyngor Sir / No update was provided by IACC.

9 Gohebiaeth/Correspondence

Nododd y clerc bod unrhyw ohebiaeth gyffredinol wedi'i hafnion at yr aelodau trwy e-bost wrth iddynt gael eu derbyn.

The clerk noted that any items of general correspondence had been forwarded to members by email as received.

10 Wylfa Newydd

Nodwyd bod dau gyfarfod wedi ei gynnal ynglyn a Wylfa Newydd (cyfarfod gyda CSYM 20/4/2021 a chyfarfod gyda gweinidog ynni 30/4/2021). Cadarnhawyd bod nodiadau o'r ddau gyfarfod wedi eu hafnion i'r aelodau er gwybodaeth.

It was noted that two meetings had been held regarding Wylfa Newydd (meeting with IACC 20/4/2021 and meeting with energy minister 30/4/2021). It was confirmed that notes of both meetings had been circulated to members for information.

11 Unrhyw Fater Arall/Any Other Business

11.1 Cytuno cynnwys ail gartrefi ar agenda'r cyfarfod nesaf gan bwysleisio'r angen i ddiogelu cymunedau, swyddi a'r iaith.

Agree to include second homes on the agenda for the next meeting the need to protect communities, jobs and the language was emphasised.

11.2 Cafwyd wybod bod clod i docynnau parcio dwy-ieithog ar facebook, a bod y sawl yn filch iawn o weld hysbysebiadau cwmnïau lleol ar y cefn. Cadarnhawyd bydd diweddarau'r wybodaeth yma ar gyfer yr archeb nesaf.

It was reported that there was praise for bilingual parking tickets on facebook, and that the person was very pleased to see adverts from local companies on the back. It was confirmed that this information will be updated for the next order.

11.3 Cadarnhaodd Tim Turner y byddyn trosglwyddo dogfennau ac eiddo y Cyngor (harbwr) i Brian Potter yn y dyddiau nesaf. Ni fu gwrthwynebiad.

Tim Turner confirmed that he would hand over Council (harbour) documents and property to Brian Potter in the coming days. There were no objections.

11.4 Cadarnhawyd bydd y postiau yn cael eu gosod ar y llithrfa erbyn diwedd y mis. Nodwyd bod angen gosod postiau newydd ar y prom hefyd gan fod cerbydau yn gyrru ar ei hyd. Nodwyd bod rhai rhwystrau yn dal if od y neu lle ar y grisiau i lawr i'r traeth (o'r prom). Y clerc i gysylltu a CSYM. Efallai bydd angen postiau ychwanegol ym Mhenrhyn a ger y Boathouse hefyd. Mae angen atgoffa CSYM i fonitro'r sefyllfa.

It was confirmed that the posts will be placed on the slipway by the end of the month. It was noted that new posts also needed to be placed on the prom as vehicles were driving along it. It was noted that some obstructions were still in place on the steps down to the beach (from the prom). The clerk to contact the IACC. Additional posts may also be required at Penrhyn and near the Boathouse. The IACC needs to be reminded to monitor the situation.

12 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf/Date of Next Meeting

Cynhelir y cyfarfod nesaf drwy gynhadledd fideo – 15/6/2021.

The next meeting will be held by video conference – 15/6/2021.

Bu'r cyfarfod orffen am 8.15yh / *The meeting closed at 8.15pm*

Derek Owen
Cadeirydd/Chair
Cyngor Cymuned Llanbadrig